Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynllun Archwilio 2016

# Cyngor Sir Ddinbych

**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 213A2016

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Gyngor Sir Ddinbych yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru – swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Anthony Veale, Michelle Phoenix a Gwilym Bury.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynllun Archwilio 2016 | |
| Crynodeb | 4 |
| Archwiliad ariannol | 4 |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 7 |
| Gwaith arall a gyflawnir | 8 |
| Archwilio perfformiad | 8 |
| Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen | 9 |
| Datblygiadau i'm gwaith archwilio yn y dyfodol | 12 |
| Atodiadau | |
| Priod gyfrifoldebau | 13 |
| Gwaith perfformiad sydd yn dal ar y gweill o amlinelliad archwilio'r llynedd | 15 |
| Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol | 16 |

# Cynllun Archwilio 2016

## Crynodeb

**1.** Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol, ac sy'n bodloni fy ymrwymiadau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio ac ardystio a yw eich datganiadau ariannol yn 'gywir ac yn deg';
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni dyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur; a
- chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol, neu drefniadau rheoli eraill.

**2.** Pwrpas y cynllun hwn yw cyflwyno’r gwaith yr wyf wedi'i gynnig, pryd y'i cyflawnir, beth fydd cost y gwaith, a phwy fydd yn ei gyflawni.

**3.** Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

**4.** Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn Atodiad 1.

## Archwiliad ariannol

**5.** Fy nghyfrifoldeb i yw cyflwyno tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ynghylch eu 'cywirdeb a'u tegwch'.

**6.** Ystyriaf hefyd a yw Cyngor Sir Dinbych (y Cyngor) wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ac yn adrodd ar sail eithriadau os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion.

**7.** Nodir fy nghyfrifoldebau'n llawn yn Atodiad 1.

**8.** Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn caniatáu imi ddatblygu dull archwilio lle canolbwyntir ar ymdrin â risgiau penodol, ac sydd hefyd yn rhoi sicrwydd cyffredinol ynghylch y datganiadau ariannol. Ceir tri cham i'm dull archwilio, fel y nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Fy null archwilio

**Cynllunio:**
Ymchwilio, arsylwi ac arolygu i ddeall yr endid a'i reolaethau mewnol er mwyn nodi ac asesu risgiau

**Gweithredu:**
Profi rheolaethau, trafodion, balansau a datgeliadau mewn ymateb i'r risgiau hynny

**Llunio casgliadau ac adroddiadau:**
Gwerthuso'r dystiolaeth a gafwyd er mwyn llunio casgliadau ac adroddiadau priodol

**9.** Nodir y risgiau o gamddatganiadau perthnasol yr ystyriaf eu bod yn sylweddol ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Arddangosyn 2, ynghyd â'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei gyflawni er mwyn ymdrin â hwy.

Arddangosyn 2: Risgiau archwilio ariannol

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol (ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol. |
| Ceir risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, felly ymdrinnir â hyn fel risg sylweddol (ISA 240.26-27]. | Byddwn yn adolygu dyluniad a gweithrediad rheolaethau ac yn cynnal profion sylweddol yn gysylltiedig â:<br>• rheoli'r trysorlys;<br>• incwm grant; a<br>• ffynonellau eraill o incwm. |
| Risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol sy'n deillio o'r ymdriniaeth ag asedau sefydlog wrth gyfrifyddu, gan gynnwys ailbrisiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. | Byddwn yn asesu'r ailbrisiadau er mwyn cael sicrwydd eu bod wedi'u cynnal yn unol â pholisïau cyfrifyddu, a bod y trafodion wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol ym mhob ffordd berthnasol. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio a gynigiwyd |
|---|---|
| Rydym wedi nodi dau drafodyn o bwys a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn sy'n deillio o ailbryniant y cynllun PFI ac ymadawiad y Cyngor o drefniant Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai â Llywodraeth Cymru. | Byddwn yn adolygu'r trefniadau cyfrifyddu'n gysylltiedig â'r ddau drafodyn ac yn sicrhau bod y trafodion ac unrhyw falansau wedi'u cyfrifyddu a'u datgelu'n gywir yn y datganiadau ariannol. |
| Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, bydd nifer o ffigurau'n cael eu hamcangyfrif wrth gyfrifo, fel darpariaethau ar gyfer atebolrwydd y Cyngor. | Byddwn yn adolygu:<br>• asesiad blynyddol swyddogion o'r sail ar gyfer llunio a diwygio amcangyfrifon, yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf; a<br>• dogfennau a gedwir i gefnogi'r amcangyfrifon a wnaed a'r farn a sefydlwyd, ac yn cyfeirio at bapurau a ddarparwyd i'w cefnogi.<br>Byddwn hefyd yn sicrhau bod gofynion cyfrifyddu a datgelu priodol yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. |
| Rydym wedi nodi sawl datgeliad o bwys. Mae'r rhain yn cynnwys datgelu Partïon Cysylltiedig a'r nodyn ar Daliadau. | Byddwn yn dylunio profion manwl er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol nad yw datgeliadau a nodwyd yn sylweddol oherwydd eu natur wedi'u camddatgan. |
| Risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol yn sgil gwall neu hepgor trafodion, balansau a datgeliadau. | Ar ôl derbyn datganiadau ariannol drafft 2015-16 ym mis Mehefin 2016, byddwn yn cynnal adolygiad o'r datganiadau ac yn diweddaru ein hasesiad risg yn unol â hynny.<br>Byddwn yn dylunio rhaglenni profi archwilio i ganolbwyntio yn ein gwaith ar falansau a thrafodion o bwys, ac unrhyw risgiau ychwanegol yn gysylltiedig â'r datganiadau ariannol sy'n codi ar ôl adolygu'r datganiadau ariannol drafft. |

**10.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch cywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

**11.** I ddibenion adrodd, byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sy'n is na lefel 'ddibwys' (pump y cant o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt.

**12.** Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- bod yr wybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwyliedig a'i bod wedi'i hadolygu i ddibenion sicrwydd ansawdd;
- y darperir mannau a chyfleusterau priodol er mwyn galluogi fy nhîm archwilio i gynnal yr archwiliad mewn modd effeithlon;
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;

- bod yr holl reolaethau a'r gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf; a
- a bod rhaglen waith arfaethedig y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

**13.** Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol y Cyngor, a nodwyd uchod, y mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am y Cyngor i gefnogi gwaith i baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

**14.** Ar gyfer 2015-16, dylid nodi bod Llywodraeth Cymru ar ganol pennu trothwyon diwygiedig er mwyn pennu a ddylai Ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan corff archwiliedig fod yn destun archwiliad. Byddwn yn edrych eto gyda'r swyddogion ar y trothwyon diwygiedig, ac yn asesu a oes angen cyflwyno tystysgrif archwilio.

# Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

**15.** Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant y Cyngor. Yn 2015-16, disgwyliaf archwilio rhwng 12 a 15 o hawliadau, y mae nifer ohonynt yn gymhleth eu natur, sef yr hawliadau am Gymhorthdal Budd-dal Tai.

**16.** Nodir fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 5.

## Materion cyffredinol a nodwyd

**17.** Mae Arddangosyn 3 yn crynhoi'r materion pwysicaf a/neu'r materion a gododd dro ar ôl tro wrth wneud gwaith ardystio grantiau yn 2014-15.

Arddangosyn 3: Materion cyffredinol sy'n ymwneud ag ardystio hawliadau a ffurflenni grant

| **Hawliadau a ffurflenni grant a amodwyd yn 2014-15** |
|---|
| Yn 2014-15, gwnaethom archwilio 14 o hawliadau a ffurflenni, y cafodd 3 ohonynt eu hamodi. Roedd y materion allweddol a achosodd benderfyniadau amodol fel a ganlyn:<br>• dosrannu arian grant;<br>• cymeradwyo trosglwyddiadau ariannol a oedd yn uwch na 10 y cant o'r dyraniad; a<br>• chydymffurfio â rheolau gweithdrefn tendro contractau'r Cyngor. |
| **Effeithiolrwydd trefniadau cydgysylltu grantiau** |
| Er nad oes trefniant canolog i gydgysylltu grantiau o fewn y Cyngor, mae'r trefniadau dirprwyedig i baratoi ac ardystio hawliadau a ffurflenni wedi'u rheoli'n dda ac yn gweithio'n effeithiol ar y cyfan. |

## Materion yn ymwneud â hawliadau a ffurflenni grant penodol

**18.** Yn ychwanegol at y materion cyffredinol a nodwyd uchod, cyhoeddais adroddiad ar wahân, 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2014-15' ym mis Mawrth 2016, a amlinellai'r prif faterion a nodwyd gennyf yn gysylltiedig â hawliadau a ffurflenni grant unigol.

# Gwaith arall a gyflawnir

**19.** Rwyf hefyd yn gyfrifol am gynnal archwiliad annibynnol o Gyd-bwyllgorau'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) y mae'r Cyngor yn awdurdod arweiniol ar eu cyfer.


**20.** Nodir fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 5.

**21.** Deellir bod y Cyngor ar ganol ymgeisio i fod yn awdurdod harbwr o dan statud. Ar ôl ei sefydlu'n gyfreithiol, bydd yn ofynnol cyflwyno datganiad cyfrifon blynyddol ar wahân ar gyfer gweithgarwch yr harbwr yn unig, wedi'i ddyfynnu o gofnodion cyfrifyddu'r awdurdod lleol. Bydd angen i'r datganiad cyfrifon naill ai gael eu hastudio neu eu harchwilio'n annibynnol. Rydym yn cynnal trafodaethau â'r swyddogion ynghylch pryd fydd y statws awdurdod harbwr yn dod i rym. Codir ffi archwilio ar wahân am y gwaith hwn.

# Archwilio perfformiad

**22.** Dangosir elfennau o'm gwaith archwilio perfformiad yn Arddangosyn 4. Cynlluniwyd yr elfennau hyn er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion lefel uchel a nodwyd yn ein .

Arddangosyn 4: Elfennau o'm gwaith archwilio perfformiad




**23.** Mae llywodraeth leol yng Nghymru ar ganol cyfnod o newid nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen. Mae llymder yn parhau i wasgu, a bydd yn ofynnol i gyrff archwiliedig fabwysiadu'r egwyddor i ddatblygu'n gynaliadwy o fis Ebrill 2016. Yn ogystal â hyn, mae drafft Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn cynnig y dylid cael llai o gynghorau ac adnewyddu'r fframwaith perfformiad. Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datgan yn gyhoeddus ei ddymuniad i ailwampio'r gyfundrefn archwilio cyn cyhoeddi'r amserlen ddeddfwriaethol, gyda

golwg ar gefnogi’r newid. Ym mis Ionawr eleni, cefais wybod gan y gweinidog y byddai’r grant a ddefnyddir i gymorthdalu fy ngwaith archwilio perfformiad llywodraeth leol o dan y Mesur yn cael ei ostwng yn sylweddol.

**24.** Fodd bynnag, bydd y Mesur yn dal yn weithredol ar gyfer 2016-17, a bydd angen imi barhau i archwilio a fydd awdurdodau'n cyflawni eu dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr her i mi yn y cyfnod hwn o ansicrwydd yw cydbwyso fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig â'r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrlon a chymesur sy'n seiliedig ar risg.

**25.** Yn nhymor y gwanwyn 2016, byddaf yn cynnal ymgynghoriad â chyrff gwasanaethau cyhoeddus er mwyn canfod sut orau i gyflawni fy nyletswyddau amrywiol, gan daro'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth drwy:

- roi sicrwydd ynghylch llywodraethu a gwarchodaeth arian ac asedau cyhoeddus;
- rhoi cipolwg o'r graddau y gwneir defnydd doeth o adnoddau er mwyn bodloni anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd i wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

**26.** Ac ystyried yr holl ffactorau hyn, ni allaf ar hyn o bryd fanylu ar fy rhaglen o waith archwilio perfformiad ym maes llywodraeth leol. Rwyf yn ystyried yr agweddau ymarferol yn gysylltiedig â dylunio rhaglen waith briodol, ac yn archwilio goblygiadau'r gostyngiad mewn cyllid grant gyda golwg ar sicrhau, hyd y gallaf, mai ychydig o effaith y bydd hynny'n ei chael ar awdurdodau lleol o ran ffioedd.

**27.** Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, byddaf yn ysgrifennu atoch i gadarnhau fy rhaglen waith ar gyfer 2016-17.

**28.** Mae'r prosiectau archwilio perfformiad a gynhwyswyd yng Nghynllun Archwilio'r llynedd, sydd naill ai'n dal ar y gweill, neu y'u disodlwyd gan brosiectau eraill a gytunwyd â chi, wedi'u nodi yn Atodiad 2.

# Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

## Y Ffi

**29.** Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn creu unrhyw elw o'i ffioedd. Yn ôl deddfwriaeth, ni cheir codi mwy o ffioedd na'r gost lawn o gyflawni'r swyddogaeth y mae'r ffi yn gysylltiedig â hi. Pennwyd cyfraddau ffi ar lefel sy'n adennill y gost lawn honno. Cadwyd fy nghyfraddau ffi yn sefydlog ar gyfer 2016. Bydd fy nhimau archwilio yn parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd wrth gynnal eu harchwiliadau, a byddant yn croesawu unrhyw gyfle i gydweithio â chi mewn modd adeiladol yng nghyswllt hyn.

**30.** Nodir amcangyfrif o'ch ffi ar gyfer 2016 yn Arddangosyn 5.

### Arddangosyn 5: Y Ffi Archwilio

| Y Maes Archwilio | Y Ffi Arfaethedig (£)[1] | Y Ffi Wirioneddol y Llynedd (£) |
|---|---|---|
| **Gwaith archwilio ariannol**[1] | **178,264** | **178,264** |
| **Gwaith archwilio perfformiad:**[2] Gwaith archwilio ac asesu gwella a gwaith dilynol* | **93,882** | **93,882** |
| **Cyfanswm y ffi** | **272,146** | **272,146** |
| **Gwaith ardystio grantiau** [4] | **65,000 i 70,000** | **71,542** |
| **Gwaith archwilio ariannol arall**[3] | **1,134** | **1,134** |

Nodiadau:

*Ffi ddangosol yw hon, yng ngoleuni paragraffau 22 i 26.

[1] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Hydref 2016.

[2] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017.

[3] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Hydref 2016 (gwaith archwilio'n gysylltiedig â Chyd-bwyllgor yr AHNE)

[4] Yn daladwy wrth gyflawni'r gwaith.

**31.** Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf â'r Cyngor.

**32.** Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Y Tîm Archwilio

**33.** Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 6.

### Arddangosyn 6: Fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Anthony Veale | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320585 | Anthony.Veale@archwilio.cymru |
| Jane Holownia | Arweinydd Ymgysylltu - Archwilio Perfformiad | 02920 320500 | Jane.Holownia@archwilio.cymru |
| Michelle Phoenix | Rheolwr Archwilio Ariannol | 07966 073281 | Michelle.Phoenix@archwilio.cymru |

[1]Nid yw'r ffioedd yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, gan na chodir TAW arnoch bellach.

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Gareth Evans | Arweinydd y Tîm Archwilio Ariannol | 02920 320500 | Gareth.Evans@archwilio.cymru |
| Gwilym Bury | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 02920 320500 | Gwilym.Bury@archwilio.cymru |

**34.** Gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar y Cyngor a'ch swyddogion. Nid wyf ychwaith yn ymwybodol o unrhyw achos posibl o wrthdaro buddiannau y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

**35.** Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i'r Cyngor sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7: Amserlen

| Allbwn arfaethedig | Cyflawni'r gwaith | Adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2016** | Tachwedd 2015 - Ionawr 2016 | Mawrth 2016 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Chwefror - Medi 2016 | Medi 2016<br>Medi 2016 |
| **Gwaith perfformiad:**<br>• Gwaith perfformiad lleol<br>• Adroddiad Gwella Blynyddol | Mai 2016 - Mawrth 2017<br>Mai - Tachwedd 2016 | Ar ôl cwblhau'r prosiectau ac mewn ymgynghoriad â'r Cyngor<br>Mawrth 2017 |
| Cynllun Archwilio 2017 | Hydref - Rhagfyr 2017 | Ionawr 2017 |

* Yn amodol ar gymeradwyaeth amserol y Cyngor ar gyfer y canfyddiadau drafft.

## Datblygiadau i'm gwaith archwilio yn y dyfodol

**36.** Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) y mae'n ofynnol imi fod wedi cynnal archwiliad ym mhob un o'r cyrff cyhoeddus a nodir o fewn y Ddeddf, a chyflwyno adroddiad ar yr archwiliadau hynny i Gynulliad Cymru erbyn 2020.

**37.** Fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 25, byddaf yn ymgynghori ar yr ymateb a gynigir gennyf i'r Ddeddf yn nhymor y gwanwyn 2016. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu a chydweithio â chyrff cyhoeddus i ddatblygu dull archwilio trwyadl, ystyrlon a chymesur. Cynigiaf y dylid defnyddio 2016-17 fel blwyddyn drosiannol lle bydd fy nhimau'n gweithio gyda nifer cyfyngedig o gyrff cyhoeddus i ddatblygu a phrofi fy null.

**38.** Wrth gadarnhau ein dulliau archwilio ac ymateb i ymgynghori parhaus gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn siarad â'r cyrff a archwilir ynghylch y goblygiadau i'w ffioedd o 2017-18 ymlaen, ac yn ystyried modelau ariannu eraill gyda Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol nesaf.

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

### Archwilio ariannol

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- Eu 'cywirdeb a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- Cysondeb yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Yn ôl Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 y mae'n ofynnol i mi asesu a yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol y Cyngor, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gwaith ardystio hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas trafodir uchod ac sydd, yn fy marn i, yn angenrheidiol er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol y Cyngor a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi hefyd ystyried a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a

- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig at unigolion o fewn y Cyngor y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod yr wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ac ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safon Ryngwladol ar Archwilio.

## Archwilio perfformiad

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Y mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal archwiliad er mwyn canfod a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ac adrodd am welliannau.

Mewn rhai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Byddaf yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddir ganddo (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwnnw hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

# Atodiad 2

## Gwaith perfformiad sydd yn dal ar y gweill o amlinelliad archwilio y llynedd

| Prosiect archwilio perfformiad | Statws | Sylw |
|---|---|---|
| Dull strategol cynghorau o gynhyrchu incwm a chodi am wasanaethau. | Gwaith maes wedi'i gwblhau | Adroddiad Cenedlaethol i'w gyhoeddi yn Haf 2016. |
| Effeithiolrwydd partneriaethau cymunedol lleol. | Gwaith maes wedi'i gwblhau ac adroddiad cenedlaethol yn cael ei ddrafftio. | Adroddiad Cenedlaethol i'w gyhoeddi yn Haf 2016. |
| Cyllid gan gynghorau ar gyfer gwasanaethau trydydd sector. | Wedi dechrau'r gwaith maes, ond heb ei gwblhau ar bob safle. | Adroddiad Cenedlaethol i'w gyhoeddi yn Haf 2016. |

# Atodiad 3

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Efallai y bydd gan y Cyngor hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf, y bydd rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Ariennir yr astudiaethau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol. Fe'u cyflwynir gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus, ac o bosib hefyd i gefnogi gwaith craffu gan bwyllgorau eraill yng Nghynulliad Cymru.

Mae'r tabl isod yn cynnwys yr holl waith sydd wedi'i raglennu ar hyn o bryd mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian.
Mae'r rhaglen yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Yn ychwanegol at y gwaith a amlinellir isod, efallai y byddaf yn penderfynu llunio adroddiadau cenedlaethol eraill yn ystod y flwyddyn sy'n rhoi crynodeb o waith archwilio lleol neu sy'n seiliedig ar ganfyddiadau archwiliadau ymatebol.

Cewch ddiweddariadau pellach am fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a lunnir gan fy nhîm.

| Pwnc | Amser cyhoeddi a ragwelir |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru yn caffael a pherchnogi Maes Awyr Caerdydd | Ionawr 2016 |
| Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru | Chwefror 2016 |
| Theatrau llawdriniaeth | Chwefror 2016 |
| Effaith ymarfer preifat ar ddarpariaeth y GIG | Chwefror 2016 |
| Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru | Mawrth 2016 |
| Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio (memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) | Gwanwyn 2016 |
| Rheoli risg llifogydd ac erydiad ar yr arfordir | Gwanwyn 2016 |
| Gwasanaethau rheilffordd | Gwanwyn 2016 |
| Llywodraethu Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Gwanwyn 2016 |
| Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru dros gyllid a darpariaeth sefydliadau addysg bellach | Hydref 2016 |
| Caffael cyhoeddus (gan gynnwys datblygiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol) | Gaeaf 2016 |

| Pwnc | Amser cyhoeddi a ragwelir |
|---|---|
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad | Gwanwyn/Haf 2017[2] |
| Ymyriadau gan Lywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol | I'W GADARNHAU[3] |

Dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn ystyried cynnwys yn fy rhaglen sawl astudiaeth newydd o'r canlynol:

- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion (rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif) a lleoedd mewn ysgolion
- Cyllid addysg bellach
- Rheoli gwastraff
- Rhaglen Cefnogi Pobl
- Mynediad at wasanaethau cyhoeddus i bobl nad ydynt o bosib yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, a'r rhai a allai fod dan anfantais heb fynediad at wasanaethau dehongli arbenigol

Ac eithrio'r astudiaeth addysg bellach, y cyfeirir ati yn y tabl uchod, nid oes cynlluniau cadarn eto i gynnal yr astudiaethau newydd hyn, er bod gwaith cwmpasu cychwynnol ar y gweill.

[2] Mae fy rhaglen o waith arfer da yn cynnwys prosiect fydd yn anelu i archwilio'r amrywiaeth o waith ym maes newid ymddygiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, a chyfleoedd i wella arferion, sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion a sicrhau gwerth gwell am arian. Bydd y prosiect yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu a datblygu cymuned arfer i rannu profiadau a'r hyn a ddysgir. Rwyf yn rhagweld y bydd yr wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir drwy'r gwaith hwn yn cefnogi gwaith i lunio adroddiad ar hyn, er bod yr adroddiad hwnnw'n annhebygol o fod yn adroddiad archwilio traddodiadol, ac na fyddai'n cael ei lunio tan hanner cyntaf 2017.

[3] Mae cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn wedi bod yn destun adolygiad yng ngoleuni'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ymyrraeth Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru yn Ynys Môn, a hefyd er mwyn ystyried y goblygiadau i'r gwaith yn sgil cynlluniau i ddiwygio llywodraeth leol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru